

Gwybodaeth i Gleifion

Angiogram Coronaidd (Coronary Angiogram)

(Prawf i archwilio'r arterïau sy'n cyflenwi gwaed i'r galon)



Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty'r Galon a'r Frest Lerpwl
Thomas Drive
Lerpwl
Glannau Mersi
L14 3PE
Ffôn: 0151-228 1616

Ysgrifennwyd y daflen hon i roi gwybodaeth i gleifion am brawf i archwilio'r arterïau sy'n cyflenwi gwaed i'r galon (Angiogram Coronaidd). Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ateb rhai o'r cwestiynau neu'r pryderon sydd gennych ynglŷn â'r prawf. Cofiwch y dylech siarad gyda staff meddygol neu nysio yn ogystal â darllen y daflen hon.

Beth ydy Angiogram Coronaidd?

Prawf arbenigol yw Angiogram Coronaidd (a elwir hefyd yn 'cathreiddiad coronaidd') sy'n caniatáu i feddyg edrych yn ofalus ar yr arterïau sy'n cyflenwi gwaed i'r galon. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth bwysig am bwysau'r gwaed y tu mewn i'ch calon, y siambrau pwmpio a falbiau'r galon.

Beth sy'n digwydd yn ystod y prawf?

Mae'r driniaeth fel arfer yn digwydd drwy'r pibellau gwaed yn nhop y goes neu'r arddwrn. Byddwch yn effro yn ystod y driniaeth ond byddwch yn cael anaestetig lleol i fferru'r croen. Bydd toriad bach yn cael ei wneud naill ai yn yr arddwrn neu dop y goes. Bydd tiwb tenau iawn (sy'n cael ei alw'n chathetr) yn cael ei roi yn yr arteri ac yn cael ei arwain yn ofalus drwy'r pibellau gwaed tuag at y galon. Mae hylif lliw arbennig yn mae'n bosib ei weld ar lun pelydr x yn cael ei chwistrellu drwy'r tiwb er mwyn i'r meddyg gael archwilio'r arterïau coronaidd a'r galon. Efallai y bydd hyn yn creu teimlad o gynhesrwydd ond nid yw'n unrhyw beth i boeni yn ei gylch.

Fyddda i'n teimlo poen yn ystod y driniaeth?

Fyddwch chi ddim yn teimlo'r cathetr yn symud y tu mewn i'ch brest ond efallai y byddwch yn ymwybodol o'ch calon yn methu curiad. Os ydych yn teimlo unrhyw boen yn eich brest mae'n rhaid i chi ddweud wrth y staff.

Faint fydd o amser fydd y driniaeth yn ei gymryd?

Mae'r driniaeth yn cymryd tua hanner awr fel arfer ond bydd yn rhaid i chi gael eich derbyn i'r ysbyty, fel arfer dim ond am y diwrnod, i gael y driniaeth. Bydd y meddyg yn trafod canlyniadau'r prawf efo chi cyn i chi fynd adref.

Sut ddylwn i baratoi ar gyfer y driniaeth?

Cyn i chi ddod i'r ysbyty byddai o gymorth petaech yn siafio'r crych ar dop eich coesau a siafio eich arddyrnau os oes angen. Bydd angen i chi gael bath neu gawod. Byddwch yn cael gwybod pa bryd y dylech stopio bwyta cyn cael y prawf.

Beth yw manteision cael y driniaeth?

Efallai y bydd Angiogram Cornaidd wedi cael ei argymhell os ydych wedi cael trawiad ar y galon yn ddiweddar, os oes gennych angina neu symptomau a allent fod yn gysylltiedig ag angina. Nid triniaeth ar gyfer y cyflyrau hyn yw'r angiogram, ond bydd yn rhoi gwybodaeth bwysig am eich calon ac yn caniatáu i'ch meddyg benderfynu os ydych angen unrhyw driniaeth bellach a thrafod unrhyw opsiynau triniaeth efo chi a'ch teulu .

Pa ddewisiadau eraill sydd gen i?

Mae hyn yn dibynnu ar eich cyflwr. Mae ymchwiliadau posibl eraill yn cynnwys prawf ymarfer a sganiau o'r galon. Fodd bynnag nid oes unrhyw brawf arall i edrych y tu mewn i'r arterïau coronaidd neu i adael i'r meddyg edrych ar eich calon yn yr un ffordd. Bydd eich meddyg yn hapus i drafod unrhyw ddulliau eraill o archwilio'ch calon os ydynt yn berthnasol i'ch achos arbennig chi

Beth yw'r risgiau cysylltiedig â'r driniaeth?

Mae'r driniaeth yn cael ei rhoi yn yr ysbyty hon i nifer fawr o bobl ac mae fel arfer yn ddiogel dros ben.

Mae rhai o'r risgiau cyffredinol cysylltiedig â'r driniaeth wedi 'u nodi isod; fodd bynnag gall fod mwy o risg i rai cleifion o ddatblygu un neu bob un o'r cymhlethdodau cysylltiedig â'r driniaeth.

Bydd eich risgiau unigol yn cael eu trafod gyda chi mewn mwy o fanylder cyn i chi arwyddo'r ffurflen ganiatâd.

- Gall gwaedu neu gleisio ddigwydd yn y manau lle bydd y tiwb yn cael ei roi i mewn i'ch coes neu'ch arddwrn

Mae cymhlethdodau mwy difrifol ond anarferol yn cynnwys:

- Difrod i'r arterïau fydd yn achosi iddynt gulhau neu gau yn sydyn. Gallai hyn achosi trawiad ar y galon fydd yn gofyn am lawdriniaeth ddargyfeiriol frys.
- Strôc yn ystod y driniaeth

Beth alla'i ei ddisgwyl ar ôl y driniaeth?

Pan fydd y driniaeth ar ben byddwch yn cael ei symud yn ôl i'r ward. Os cafodd y prawf ei wneud drwy dop y goes byddwch angen gorffwys yn y gwely gyda'ch coes yn fflat am o leiaf ddwy awr. Os cafodd y prawf ei wneud drwy'ch arddwrn efallai y byddwch yn cael eistedd mewn cadair. Bydd y nyrs sy'n gofalu amdanoch yn gwirio eich pwls a'ch pwysau gwaed ac yn edrych ar y croen lle'r aeth y tiwb i mewn i'ch corff yn rheolaidd. Byddwch yn cael bwyta ac yfed oni bai bod arnoch angen rhagor o brofion.

Pryd fydda' i'n cael dechrau gwneud pethau arferol eto?

Fel arfer byddwch yn cael mynd adref yn hwyrach ymlaen yr un diwrnod. Fyddwch chi ddim yn cael gyrru ar ddiwrnod y prawf a dylech orffwys am weddill y diwrnod. Cewch ailafael mewn gweithgareddau arferol y diwrnod wedyn er na ddylech godi pethau trwm am wythnos. Bydd y cyngor hwn yn cael ei drafod gyda chi cyn i chi fynd adref a byddwch yn cael taflen wybodaeth.

Am ragor o wybodaeth ewch i:

www.nhsdirect.nhs.uk

www.bhf.org.uk

www.dipex.org

Neu cysylltwch â:

Llinell wybodaeth Sefydliad Prydeinig y Galon ar 0845 0708070

Os ydych angen copi o'r ffurflen hon ar fformat neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni gan ddyfynnu côd y daflen a'r iaith neu'r fformat yr ydych ei angen.